

## 5. Amcanion a chyfleoedd (p)

### **Coetir (Gweledigaethau ar gyfer pob bloc coetir)**

#### Abergwynnegrain

- Bydd blociau coedwig Abergwynnegrain yn dod yn llai o flaenoriaeth o ran pren conwydd cynhyrchiol, ac mae eisoes wedi dechrau symud tuag at goedwig llydanddail yn bennaf a fydd yn gwella'r dail llydan presennol yn yr ardal, yn gwella sefydlogrwydd y dirwedd a hefyd yn dod â lles, bioamrywiaeth, dal a storio carbon a chadw'r buddion hamdden sydd eisoes yn bodoli.
- Disgwylir a goddefir cymysgedd o gonwydd a llydanddail trwy aildyfiant naturiol; fodd bynnag, bydd yr elfen gonwydd yn cael ei thargedu at bob ymyrraeth deneuo i ffafrio'r dail llydanddail.
- Rhoddir ystyriaeth i'r llydanddail cynhyrchiol brodorol ar y safle. Yn ddelfrydol, bydd hadau lleol yn cael eu cyrchu a'u tyfu mewn meithrinfeydd lleol i'w defnyddio.

#### Braichmelyn

- Bydd Braichmelyn yn dod yn llai o flaenoriaeth ar gyfer pren conwydd cynhyrchiol a bydd yn symud yn araf tuag at goedwig llydanddail a fydd yn creu mwy o sefydlogrwydd i'r dirwedd a hefyd yn dod â lles, bioamrywiaeth, dal a storio carbon ac yn cadw'r buddion hamdden sydd eisoes yn bodoli.
- Caniateir i'r goedwig aildyfu ar ôl cwmpo llennyrch gyda chymysgedd o gonwydd a llydanddail. Efallai y bydd angen cyfoethogi yn y blynyddoedd dilynol ar ôl cwmpo coed er mwyn cyflawni'r dwysedd stocio a argymhellir.
- Bydd angen cwmpo rhywogaethau coed sydd ar hyn o bryd yn agored i ymosodiad pathogen difrifol er iechyd y goedwig a diogelwch ei defnyddwyr. Ni fydd coed llarwydd yn cael eu defnyddio mwyach fel cydran o rywogaeth y goedwig.

#### Parc y Bwlch

- Bydd Parc y Bwlch yn parhau i gynhyrchu cyflenwad cynaliadwy o goed trwy ddylunio llennyrch cwmpo coed a dewis rhywogaethau ailstocio i ganiatáu cynhyrchiant trwy goedwig gorchudd di-dor mewn cylchdroadau yn y dyfodol.
- Oherwydd cydrannau tebyg o ran oedran ym Mharc y Bwlch, mae llawer o'r cnwd bellach yn agosáu at aeddfedrwydd biolegol ac mae angen ardaloedd o lwyrddorri i atal gwyntoedd cryfion.
- Datblygiad o lain glustogi coetir brodorol ar hyd ochr uchaf Parc y Bwlch ger Moel y Ci i leihau aildyfiant naturiol eginblanhigion conwydd a allai effeithio ar nodweddion Ardal Cadwraeth Arbennig cyfagos Eryri.
- Cymerir cyfleoedd i feddalu ymylon y llennyrch ar ôl gweithrediadau cwmpo coed trwy ganiatáu adfywio neu gyfoethogi rhywogaethau llydanddail i ystyried eiddo cyfagos.
- Bydd angen cwmpo rhywogaethau coed sydd ar hyn o bryd yn agored i ymosodiad pathogen difrifol er iechyd y goedwig a diogelwch ei defnyddwyr. Ni fydd coed llarwydd yn cael eu defnyddio mwyach fel cydran o rywogaeth y goedwig.
- Yr opsiwn gwerthu coed a ffefrir fyddai cynhyrchu uniongyrchol, byddai hyn yn rhoi cyfle i fuddiannau lleol brynu parseli o bren ar ochr y ffordd.

### **Cyffredinol**

- Ym mhob bloc coetir, bydd rhaid sicrhau bod teneuo yn cael ei wneud mewn pryd er mwyn gwella rheolaeth coedamaeth y goedwig.
- Bydd ystyriaeth i ddarparu rhywogaeth ac ystod oedran fwy amrywiol i wella cydnerthedd lle bo hynny'n bosibl.
- Amrywio cyfansoddiad y rhywogaethau yn y goedwig er mwyn cynyddu gwydnwch i blâu a chlefydau wrth adeiladu goedwig gadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### **Coetir hynafol**

- Gwella cysylltedd cynefinoedd trwy gynnal a gwella coetiroedd hynafol rhannol naturiol ac adfer planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol, yn unol â'r polisi blaenoriaethu strategol.
- Mae teneuo safleoedd coetir hynafol yn hanfodol ar gyfer cynnal a chadw ac yn dilyn canllawiau coedamaeth cadarn.
- Lle mae'r prif gnwd o gonwydd wedi'i gynaeafu, bydd yn hwyluso ehangu coetir brodorol. Mae ailgyflenwi'r ardaloedd hyn yn flaenoriaeth allweddol i sicrhau na cholli unrhyw orchudd coedwig net o ganlyniad.

### **Dŵr**

- Bydd datblygu coridorau glan yr afon yn gwella cysylltedd y coedwigoedd i greu cysylltiadau â chynefinoedd eraill ac yn helpu i leihau effaith dŵr ffo gwaddod o weithrediadau coedwigaeth.
- Cynnal a chadw cwlfertau a systemau draenio ar ochr y ffordd i fodloni rheoli perygl llifogydd cyfredol ac arfer gorau'r diwydiant.

### **Hamdden**

- Cynnal ac ystyried buddion hamdden ychwanegol a lleihau'r tarfu ar ardaloedd hamdden cyfredol lle bo hynny'n bosibl.

### **Diwylliant a threftadaeth**

- Nodi nodweddion treftadaeth a diwylliannol i osgoi difrod, yn enwedig o amgylch ardaloedd a nodwyd sydd â risg uchel.
-